WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol: 2017-18 – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018
Cyfeirnod y ddogfen: 382A2018-19



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Nick Selwyn, Steve Frank ac Euros Lake o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 4

Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 4

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2017-18 6

## Atodiadau

Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn 8

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 9

Atodiad 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2017-18 12

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2017-18

1 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) ei hun. Yn ystod 2017-18, ymgymerwyd â gwaith asesu gwelliant ym mhob awdurdod. Gwnaethom hefyd ymgymryd â gwaith peilot ym mhob Awdurdod Parc Cenedlaethol o dan y thema llywodraethu mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus

3 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod yn anhebygol o fodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2018-19.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella gennym ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) fel rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2017-18

## Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu y cyflwynwyd adroddiadau arno yn ystod 2017-18

Disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, lle y bo'n berthnasol.

<table>
<tr><th>Dyddiad cyhoeddi</th><th>Disgrifiad byr</th><th>Casgliadau</th><th>Cynigion ar gyfer gwella</th></tr>
<tr><td colspan="4">Llywodraethu</td></tr>
<tr><td>Mis Tachwedd 2017</td><td>Archwiliad peilot Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Ystyriodd ein peilot i ba raddau y mae'r awdurdod wedi integreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei amcanion llesiant a ph'un a yw'r awdurdod yn gwneud digon o gynnydd i'w cyflawni. Gwnaethom ganolbwyntio ar brosiect prentisiaeth yr Awdurdod, 'Get Into the Brecon Beacons'. Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth lawn ar hyn o bryd ac sydd â chyrhaeddiad addysgol isel neu sydd heb sgiliau penodol.</td><td>Gwnaethom lunio adroddiad cryno a ddaeth i'r casgliad canlynol:<ul><li>mae dealltwriaeth yr Awdurdod o'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio) yn gwella ac mae wedi diweddaru ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau gan gynnwys ei gyfrifoldebau ar gyfer pennu amcanion llesiant.</li><li>mae'r Awdurdod yn integreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau a rhaglenni gwaith o ddydd i ddydd, ac mae'n datblygu ei ddealltwriaeth o effaith. Mae gwaith i brif-ffrydio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o waith cynllunio strategol yn mynd rhagddo ac mae cynnydd clir i'w weld yn hynny o beth.</li><li>mae'r Awdurdod yn gweithio i gyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy ond mae anghysondebau gwerthuso yn golygu na all yr Awdurdod ddangos ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd systematig.</li><li>mae'r Awdurdod yn cysoni dulliau gweithredu, dyletswyddau a fframweithiau a oedd eisoes yn bodoli â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond hyd yma, nid yw wedi cynnal adolygiad sylfaenol o'i amcanion strategol yn unol ag egwyddorion y Ddeddf</li></ul></td><td>Er na wnaethom unrhyw argymhellion yn ystod ein gwaith peilot, nododd ein hadroddiad rai meysydd i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys:<ul><li>mae tipyn o gyfle i wneud y wefan yn fwy rhyngweithiol fel y gall yr Awdurdod ddangos tystiolaeth o drafodaeth gyhoeddus ac effaith gymunedol ac, felly, annog mwy o gyfranogaeth;</li><li>heblaw am ddangos yr effaith ar ei Gynllun Datblygu Lleol, gallai'r Awdurdod wneud mwy i egluro beth sy'n newid yn sgil gwaith ymgynghori;</li><li>nid yw bob amser yn glir i ba raddau mae'r Awdurdod yn ymgorffori gwersi corfforaethol yn effeithiol ar ôl gwerthuso mentrau; ac</li><li>mae lle i integreiddio 32 o gynlluniau a strategaethau a blaenoriaethu camau gweithredu er mwyn cysylltu'r capasiti a'r adnoddau sydd ar gael o fewn yr Awdurdod yn well.</li></ul></td></tr>
</table>

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Y defnydd o adnoddau** | | | |
| Ionawr 2018 | **Llythyr archwilio blynyddol 2016-17**<br>Llythyr sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. | • Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau;<br>• Ar 28 Gorffennaf 2017, rhoddais farn archwilio ddiamod; ac<br>• Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. | Dim |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Ebrill 2017 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant statudol. | Dim |
| Ionawr 2018 | **Archwiliad o asesiad o berfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig yr Awdurdod. | Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau adrodd ar welliant statudol am y rhesymau canlynol:<br>• ni chyhoeddodd yr Awdurdod ei asesiad ar 31 Hydref 2017 na chyn hynny; ac<br>• nid yw'r asesiad o berfformiad yn cynnwys digon o ddata na gwybodaeth i allu cymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol. | Dim |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. | | | |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau'.

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried pa mor debygol ydyw y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Hefyd, yr asesiad yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

John Cook
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

**Cyfeirnod:** 361A2018-19
**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Ionawr 2018

Annwyl John

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

## Ar 28 Gorffennaf 2017, rhoddais farn archwilio ddiamod

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/Pwyllgor Cynghori ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (yr Alban) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Gorffennaf 2017, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Cyflwynwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i'r Awdurdod yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Gorffennaf 2017.

## Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Cyhoeddodd yr adroddiad ar gyfer 2017 ar 4 Awst 2017. Er na wnaeth unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at rai cynigion ar gyfer gwella y mae angen ymdrin â nhw yn y flwyddyn gyfredol.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi’i gwblhau ar 28 Gorffennaf 2017

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr mewn perthynas ag archwiliad 2016-17. Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ynglŷn â threfniadau’r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, roeddwn yn gallu ardystio bod yr archwiliad wedi’i gwblhau pan roddais fy marn archwilio.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 fod yn unol, fwy neu lai, â’r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir



**Richard Harries**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2017-18

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2017-18

Crynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol a gafodd eu cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers i'r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gael ei gyhoeddi.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2017 | **Caffael Cyhoeddus yng Nghymru** | Roedd yr adroddiad yn cynnwys saith argymhelliad. Roedd chwech o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru ac un ohonynt i gyrff cyhoeddus<br>R3 Roedd yn glir o'n gwaith samplu bod rhai o'r strategaethau caffael wedi dyddio, a bu ymateb cymysg hefyd i bolisïau a deddfwriaeth newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn adolygu eu strategaethau a'u polisïau caffael yn ystod 2017-18 ac yn flynyddol wedi hynny i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau ehangach i bolisïau a deddfwriaeth ac yn cefnogi gwelliant parhaus. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru